Pa gyfrifoldebau sydd gan gyflogwyr am fynediad i adeiladau?

Mae L24 (Rheoliadau WHSW 1992 ACOP) yn nodi:

Nod y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod gweithleoedd yn diwallu anghenion iechyd, diogelwch a lles pob aelod o'r gweithlu a all gynnwys pobl ag anableddau. Mae nifer o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bethau fod yn 'addas' fel y diffinnir yn rheoliad 2(3) mewn ffordd sy'n ei gwneud yn glir y dylai llwybrau traffig, cyfleusterau a gweithfannau a ddefnyddir gan bobl ag anableddau fod yn addas iddynt eu defnyddio.

Mae Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys gofynion sydd wedi'u bwriadu i wneud adeiladau newydd yn hygyrch i bobl gyda symudedd cyfyngedig, neu nam ar y golwg neu'r clyw. Ceir hefyd Safon Brydeinig ar fynediad i adeiladau ar gyfer pobl ag anableddau. {BS 5810:1979 Code of Practice for Access for the Disabled to Buildings}

Yn ogystal â hyn, cyfeirir galwyr at y Comisiwn Hawliau Anabledd:

Ffôn 08457 622 633
Ffacs 08457 778 878
Ffôn testun 08457 622 644

Neu:

DRC Helpline
Freepost MID 02164
Stratford-upon-Avon
CV37 9HY
ebost: enquiry@drc-gb.org

- Gwefan y Comisiwn Hawliau Anabledd

Newidiadau y mae'n rhaid i gyflogwyr gydymffurfio â hwy (o 1af Hydref) ar gyfer gweithwyr anabl
Gellir cael gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol newydd a ddaeth yn weithredol ar 1/10/04 o ran dyletswyddau cyflogwyr ar gyfer pobl anabl ar y wefan ganlynol

- Gwefan y Llywodraeth am Anabledd